Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

# Pecyn Cymorth

## RHAN UN

### Sut i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26768 ISBN digidol 978 1 4734 4931 2

play wales chwarae cymru

# RHAN UN
# Sut i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a pharatoi ar gyfer yr Asesiad

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad**

1.1 Diben y Pecyn Cymorth
1.2 Beth rydym yn dymuno ei gyflawni: amser, lle a chaniatâd i chwarae

**2. Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth**

2.1 Adrannau'r pecyn cymorth
2.2 Sut y datblygwyd y pecyn cymorth

**3. Paratoi ar gyfer Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

3.1 Ymgysylltu ag aelodau etholedig
3.2 Camau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
3.3 Gweithio mewn partneriaeth
3.4 Cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Diben y Pecyn Cymorth

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i baratoi gan Chwarae Cymru a Llywodraeth Cymru ar y cyd â darparwyr chwarae ledled Cymru i helpu pob Awdurdod Lleol i gyflawni eu dyletswyddau, fel y nodir yn Rheoliadau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012. Cymeradwywyd y gwaith o ddatblygu'r pecyn cymorth gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, sef un o Weinidogion Cymru, fel ffordd o gynorthwyo yn y broses o weithredu'r ddyletswydd hon.

Dylid defnyddio'r pecyn cymorth yn gysylltiedig â Rheoliadau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 a Chanllawiau Statudol cysylltiedig Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae. Mae'r rhain yn nodi manylion yr asesiad y mae angen i bob Awdurdod Lleol ei gynnal, a'r cynllun gweithredu y mae angen iddynt ei gyhoeddi bob tair blynedd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae'r ddyletswydd hon yn ffurfio rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfleoedd chwarae i'r holl blant yng Nghymru. Mae hefyd yn ffurfio rhan o'r agenda gwrthdlodi, sy'n cydnabod y gall plant wynebu tlodi o ran profiadau, cyfleoedd a dyheadau, a bod y math hwn o dlodi yn gallu effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ledled Cymru. Mae gan y ddyletswydd y potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol ac ystyrlon sy'n cefnogi hawl plant i chwarae yn ogystal â chynnig cyfoeth o gyfle a phrofiad iddynt.

Mae'r adnoddau a ddarperir yn dempledi dibynadwy sy'n seiliedig ar y materion y mae angen eu hystyried o fewn y Canllawiau Statudol. Gellir defnyddio'r templedi a ddarperir fel y maent neu fel canllaw i lywio'r gwaith o ddatblygu adnoddau mwy penodol.

Darperir ffurflen ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, y mae angen ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2016. Darperir yr adnoddau eraill i helpu awdurdodau lleol i gwblhau'r asesiad a'r cynllun gweithredu a dylid eu defnyddio yn unol â'r gofynion lleol.

## 1.2 Beth rydym yn dymuno ei gyflawni: amser, lle a chaniatâd i chwarae

Rydym am i Gymru fod yn wlad lle mae plant yn cael eu gweld yn gynyddol yn yr awyr agored yn mwynhau manteision chwarae. Rydym am greu amgylchedd sy'n croesawu cyfleoedd chwarae sy'n rhoi amser, lle a chaniatâd i blant chwarae. Rydym am i rieni, teuluoedd a phawb yn y gymuned gydnabod bod chwarae yn bwysig iawn i fywydau plant nawr ac ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol. Hoffem hyrwyddo amgylcheddau chwarae o ansawdd uchel ac agweddau cadarnhaol tuag at hawl plant i chwarae'n rhydd yn eu cymunedau. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen yr holl grwpiau hyn, ynghyd ag Aelodau a Swyddogion etholedig Awdurdodau Lleol; a swyddogion gwneud penderfyniadau a darparwyr eraill mewn amrywiaeth o feysydd polisi, i gydweithio er mwyn dileu rhwystrau i chwarae plant a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant ar eu strydoedd ac yn eu cymunedau eu hunain.

Mae'n bwysig bod Aelodau etholedig Awdurdodau Lleol yn deall yr amrywiaeth eang o feysydd polisi sy'n effeithio ar chwarae a'r materion sydd angen eu hystyried yn yr asesiad. Mae angen iddynt ymgysylltu'n llawn o ddechrau'r broses asesu a derbyn perchenogaeth o'r canlyniadau.

Datblygwyd y pecyn cymorth i roi atebion ymarferol a allai ein helpu i asesu rhwystrau, mynd i'r afael â hwy a chreu Cymru well lle gall plant fyw a chwarae ynddi. Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfle a roddir i ni gan y ddeddfwriaeth hon, a gwneud iddi weithio i blant, mae'n amlwg bod angen i ni ddefnyddio ein hadnoddau presennol, naill ai'n fwy effeithiol neu mewn ffordd wahanol.

## 2. Sut i ddefnyddio’r pecyn cymorth

Paratowyd y pecyn cymorth hwn er mwyn helpu Awdurdodau Lleol i gynnal a chwblhau’r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae wedi’i rannu’n bedair adran er mwyn ei wneud yn haws i’w ddefnyddio.

### 2.1 Adrannau’r Pecyn Cymorth

**Rhan Un: Sut i ddefnyddio’r Pecyn Cymorth Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a pharatoi ar gyfer yr Asesiad**

Mae’n rhoi cyflwyniad i ddiben y pecyn cymorth ac awgrymiadau ar sut y gall Awdurdod Lleol baratoi ar gyfer cynnal yr asesiad. Darperir rhai adnoddau ar gyfer y broses baratoi a chaiff y rhain eu cynnwys yn Rhan Pedwar, sy’n cynnwys yr holl adnoddau y cyfeirir atynt yn y pecyn cymorth.

**Rhan Dau: Cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

**Mae’n cynnwys:**

**2a. Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a**

**2b. Ffurflenn y Cynllun Gweithredu ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.**

Dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio’r ddwy ffurflen hon gan y byddant yn helpu Llywodraeth Cymru i gymharu asesiadau a chynlluniau gweithredu Awdurdodau Lleol er mwyn llunio darlun cenedlaethol, clir, ledled Cymru o gyfleoedd chwarae.

**2a. Mae’r Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae** yn cwmpasu’r holl faterion y mae angen eu hystyried yn yr Asesiad, fel y nodir yn y Canllawiau Statudol. Dylai’r ffurflen alluogi pob Awdurdod Lleol i nodi’n glir ei ddadansoddiad o ba mor dda y mae’n cyflawni digonolrwydd ar gyfer pob maen prawf a rhoi tystiolaeth gryno ar gyfer y farn honno. Ni ddylai’r ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gynnwys data crai, ond nodi p’un a oes data ar gael, lle caiff ei gadw a dolenni fel y bo’n briodol. Dylai’r Awdurdod Lleol ddefnyddio’r data llawn at ddibenion gwella cyfleoedd chwarae a bod ar gael i Lywodraeth Cymru ar gais. Mae’r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hefyd yn cynnwys adrannau ar ddiffygion o ran digonolrwydd a chamau gweithredu a nodir ar gyfer y cynllun gweithredu.

**2b.** Dylid defnyddio’r **Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae** i gynllunio’r camau gweithredu y mae’r Awdurdod Lleol yn bwriadu eu cymryd yn ystod 2016-17 o ran y camau gweithredu a nodir yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Disgwylir y caiff rhai o’r camau gweithredu hyn eu hymgorffori o fewn Cynllun Integredig Sengl pob Awdurdod Lleol.

**Rhan Tri: Gwybodaeth Ychwanegol ac Adnoddau**

Bydd y pecyn cymorth yn darparu gwybodaeth ychwanegol a all fod yn ddefnyddiol i Awdurdodau Lleol wrth ystyried y materion sy’n ymwneud â chwarae a dulliau ar gyfer cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

**Rhan Pedwar: Adnoddau**

Mae’n cynnwys yr adnoddau y cyfeirir atynt yn yr adrannau eraill a bwriedir iddynt helpu gyda’r broses asesu.

## 2.2 Sut y datblygwyd y pecyn cymorth

Mae nifer o adnoddau presennol; systemau asesu a sicrwydd ansawdd; a dogfennau a strategaethau polisi wedi'u hadolygu er mwyn llywio'r broses o ddatblygu'r pecyn cymorth.

Nod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chwarae Cymru, oedd sicrhau bod pawb yn cael ei gynnwys yn y broses o ddatblygu'r pecyn cymorth hwn. Datblygwyd y pecyn cymorth ar y cyd ag amrywiaeth eang o bartneriaid yn cynnwys:

- Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru Gyfan (swyddogion chwarae Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol).
- Grŵp Prif Swyddogion Hamdden De-ddwyrain Cymru.
- Cynrychiolwyr yn nigwyddiadau ymgynghori Llywodraeth Cymru yn Llandudno, Merthyr Tudful ac Abertawe.
- Swyddogion Dysgu Gydol Oes a Swyddogion Adfywio a'r Amgylchedd Sir y Fflint.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Prif Swyddog Chwarae Conwy (ar secondiad o Chwarae Cymru).
- Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant.
- Yr Uned Gyfranogi a leolir yng Nghronfa Achub y Plant.
- Tîm Polisi Trafnidiaeth Cyngor Caerdydd.
- Gweithdy Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Rhondda Cynon Taf.
- Di Murray, Playworks UK Consultancy and Training.
- Theresa Casey, Llywydd, International Play Association.

# 3. Paratoi ar gyfer Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Bydd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gaiff ei gynnal yn dda yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i nodi bylchau mewn darpariaeth ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

Bydd angen sgiliau a gwaith partneriaeth i gynnal yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn erbyn meini prawf y Canllawiau Statudol.

Mae llawer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi sefydlu Grwpiau Monitro Chwarae. Fe'u sefydlwyd i gyfrannu at yr Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynlluniau Gweithredu cyntaf. Mae'r Canllawiau Statudol presennol, Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae, yn nodi:
*"Dylai'r grŵp hwnnw gynorthwyo'r cyfarwyddwr arweiniol, yr aelod arweiniol ar wasanaethau plant a phobl ifanc (pwynt 4.2) a'r swyddog a ddynodwyd i arwain ar swyddogaethau rheoli a chyflawni (mater G) i gyflawni'r ddyletswydd o dan y Mesur, a thrwy hynny sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn ardal yr awdurdod. Dylai hefyd wahodd Hyrwyddwyr Chwarae i fod yn rhan o waith y grŵp er mwyn ennyn diddordeb yn y gwaith hwn a chael cymorth i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant". O ganlyniad, mae gan lawer o ardaloedd sail yn barod i greu polisi a strategaeth leol sy'n datblygu arferion gwaith trawsadrannol a gweithdrefnau datblygu a gweithredu polisi i wella cyfleoedd plant i chwarae.*

Bydd angen i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried yr amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae.

Bydd yn cynnwys:

- Proffiliau demograffig yr ardal
- Asesu:
  - mannau agored a mannau chwarae presennol a phosibl;
  - darpariaeth chwarae ddynodedig;
  - darpariaeth hamdden
- Ymhlith y ffactorau eraill sy'n hyrwyddo cyfleoedd chwarae mae cynllunio: traffig; trafnidiaeth; gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, yn ogystal â datblygu'r gweithlu.

## 3.1 Ymgysylltu ag aelodau etholedig

Un o'r camau cyntaf pwysig yw nodi'r aelod cabinet etholedig arweiniol sy'n gyfrifol am Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn ardal. Bydd briffio aelodau etholedig yn helpu i godi proffil yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ymhlith Cynghorwyr. Bydd hefyd yn gyfle i nodi'r amrywiaeth o ffactorau a phenderfyniadau eraill sy'n effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae yn eu cymunedau.

## 3.2 Camau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

**Cam 1: Paratoi**

- Gweithio gyda'r Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc/Cabinet
- Cytuno ar y fethodoleg Asesu
- Penderfynu pwy fydd yn arwain yr Asesiad
- Nodi cyfranwyr
- Nodi aelodau a sefydlu Gweithgor Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

- Pennu rolau a chyfrifoldebau partneriaeth ynghyd â llinell amser
- Nodi a recriwtio partneriaid allweddol
- Cytuno ar egwyddorion
- Nodi adnoddau/cymorth ariannol

**Cam 2: Cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

- Cynnal asesiad a nodi opsiynau gweithredu, gan ddefnyddio'r Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Archwilio a mapio mannau chwarae a darpariaeth chwarae sy'n bodoli eisoes
- Cynnal arolwg ymhlith plant a rhieni
- Nodi cryfderau a gwendidau mewn darpariaeth a chytuno arnynt

**Cam 3: Llunio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

- Ysgrifennu'r asesiad
- Y Gweithgor Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i adolygu a chymeradwyo'r Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Aelodau etholedig i gytuno ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

**Cam 4: Llunio'r Cynllun Gweithredu**

- Dadansoddi a blaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer y dyfodol
- Y Gweithgor Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i adolygu a chymeradwyo'r Ffurflen Cynllun Gweithredu ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Aelodau etholedig i gytuno ar y Cynllun Gweithredu ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

**Cam 5: Cyflwyno'r Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, a'r Ffurflen Cynllun Gweithredu ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i Lywodraeth Cymru**

**Cam 6: Cyflwyno'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol i'w cynnwys yn y Cynllun Integredig Sengl**

**Cam 7: Cyhoeddi crynodeb o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar wefan yr awdurdod lleol**

## 3.3 Cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

### Dadansoddiad o'r Opsiynau

Drwy ddadansoddi opsiynau, bydd modd mesur gallu sefydliad i gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a nodi'r dull mwyaf priodol o wneud hynny.

*Cyfeiriwch at Adnodd 1 – Dadansoddiad o'r Opsiynau*

### Swyddog Arweiniol

Y cam nesaf yw nodi swyddog â statws priodol i arwain y broses a sicrhau bod yr ystod eang o bartneriaid yn cael eu cynnwys ac yn cyfranogi. Bydd bod yn glir ynghylch y lefel ddisgwyliedig o gyfranogiad yn hollbwysig. Nodir yn fras isod y rolau y gofynnir i bartneriaid eu cyflawni:

- Rhoi gwybodaeth y mae'r partneriaid eisoes yn ei chasglu
- Rhoi gwybodaeth sydd, ar hyn o bryd, y tu hwnt i'w cyfrifoldebau beunyddiol arferol
- Lleisio barn ar faterion allweddol
- Bod yn rhan o'r broses asesu, er enghraifft, fel aelod o'r grŵp llywio

Er mwyn cynnal a llunio Asesiad da o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae angen meddu ar amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth fanwl, sy'n cynnwys:

- Pobl, polisïau, cynlluniau a dulliau cyflawni lleol, poblogaeth ac anghenion plant a theuluoedd, chwarae a darpariaeth chwarae, cynllunio gofodol, cynllunio trafnidiaeth, cynllunio mannau agored, diogelwch cymunedol, iechyd y cyhoedd.
- Gweithdrefnau technegol megis gwaith ymchwil, samplu a dadansoddi arolwg, systemau mapio daearyddol, mesur a rheoli perfformiad.

Er mwyn i rôl y swyddog sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gael ei deall yn glir, gall fod yn ddefnyddiol ei hamlinellu mewn disgrifiad swydd.

*Cyfeiriwch at Adnodd 2 – Disgrifiad Swydd Enghreifftiol y Swyddog Arweiniol*

## 3.4 Gweithio mewn partneriaeth

Tra ei bod yn hanfodol i un adran a swyddog dynodedig fod yn bennaf gyfrifol am reoli'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, bydd y broses o gasglu a dadansoddi data yn gofyn am fewnbwn gan amrywiaeth o bartneriaid sydd â swyddogaethau penodol yn cynnwys:

- Staff Awdurdod Leol
  - Gwasanaethau Chwarae
  - Plant gyda chymorth anabledd
  - Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol/mapio
  - Cynllunio
  - Ymchwil
  - Marchnata
  - Trafnidiaeth
  - Gwasanaethau amgylcheddol/parciau
  - Gwasanaethau Hamdden
  - Gwasanaethau Ieuenctid
  - Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
  - Gweithwyr cyfranogi
  - Cymorth y blynyddoedd cynnar, gofal plant a theuluoedd
  - Datblygu cymunedol/swyddogion partneriaeth
  - Ystadau Addysg
- Cymdeithas Chwarae Wirfoddol Ranbarthol
- Darparwyr chwarae yn y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol
- Cynghorau Tref a Chymuned

Drwy sefydlu Gweithgor Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, bydd modd sicrhau bod gwybodaeth a data cyfredol yn cyfrannu at Asesiad cynhwysfawr o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Bydd hefyd yn sicrhau bod cynllun gweithredu realistig yn cael ei ddatblygu.

Bydd Cylch Gorchwyl yn helpu i ddisgrifio diben a strwythur Gweithgor Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

*Cyfeiriwch at Adnodd 3 – Cylch Gorchwyl Enghreifftiol y Gweithgor Cyfleoedd Chwarae Digonol*

**Archwiliad Sgiliau**

Mae'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn nodi'r swyddog mwyaf priodol ym mhob adran neu sefydliad partner i gyfrannu at y Gweithgor Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Darperir tabl Archwiliad Sgiliau sy'n nodi'r broses asesu ar gyfer pob Mater er mwyn awgrymu'r ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob adran.

*Cyfeiriwch at Adnodd 4 – Templed Archwiliad Sgiliau Enghreifftiol*